

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala, 5/6/2014

Presennol: Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Maer, Dilys Evans, Dorothe Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Islwyn Pritchard-Jones, Edith Roberts, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan.

Ymddiheuriadau: Eifion Roberts, Lis Puw (Cofnodwyd gan Dorothe Evans yn absenoldeb y Clerc)

1. Wrth estyn gair o groeso, cyfeiriodd y Maer at lwyddiant Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Y Bala, at lwyddiannau niferus plant a phobl ifanc yr ardal ac at lwyddiant Gruffydd Antur yn cipio'r Gadair. Mynegodd cydymdeimlad y Cyngor a thrigolion y dref gyda theulu Derec Williams, gŵr a gyfrannodd gymaint at fywyd ieuenctid Penllyn a thu hwnt. Cyhoeddodd y Maer mai enillydd cystadleuaeth addurno ffenest siop oedd Stiwdio 3. Mwynhaodd gwmni Mici Plwm a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan wrth feirniadu a chytunwyd i anfon gair o ddiolch at Mici Plwm. **Gweithredu: Clerc.** Diolchwyd i Alun Price am gytuno i lunio tystysgrif i'w chyflwyno i Stiwdio 3.
2. Croesawyd Lowri Roberts yn cyflwyno'r Comisiwn a dderbyniodd Partneriaeth Penllyn i ymgynghori ar adnoddau diwylliannol y gellid eu cynnwys yn y cais i ariannu'r Ysgol Gydol Oes. Cafwyd trafodaeth frwd a chadarnhad pendant bod angen sicrhau darpariaeth gelfyddydol, yn arbennig darpariaeth theatrig. Roedd cefnogaeth i gadw darpariaeth llyfrgell yn y dref, ond bod angen mynediad ar wahân os bydd y llyfrgell yn parhau ar gampws yr ysgol. Diolchwyd i Lowri Roberts am ei hamser a'i gwaith.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 1af 2014.
5. Materion yn codi o gofnodion mis Mai:
 - a. Bydd y clerc yn parhau i weithio ar fater y plac.
 - b. doedd fawr ddim sbwriel i'w weld ar lan y llyn dair wythnos yn ôl
 - c. derbyniwyd caniatâd gan Gyngor Gwynedd (grant gwella canol tref) i archebu gwerth £3750 o oleuadau Nadolig ar yr amod fod y Cyngor Tref wedi ymrwymo i £2,000 o arian cyfatebol i'w gosod a'u cysylltu pan fydd yn amserol gwneud hyn.
6. Materion y Cynghorydd Sir:

Nid oes ateb wedi dod hyd yn hyn oddi wrth y Gofrestrfa Tir parthed perchnogaeth cerflun Tom Ellis.

Y Domen - ar ôl trafodaeth cytunwyd i beidio a thalu'r rhent am y tro ac ysgrifennu i holi gan bwy mae'r cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch ar hyn o bryd a phwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw.

7. Derbyniwyd adroddiad Dorothi Evans, cynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru a chyfeiriodd at gyflwyniad Morwena Evans ar wasanaethau ar gyfer pobl hŷn yng Ngwynedd. Cafwyd trafodaeth hefyd ar broblemau'r cynghorau cymunedol sy'n cynnal mynwentydd gan fod y grant digolledu'n dod i ben.
8. Derbyniwyd Adroddiad y Clerc ar Hyfforddiant i Glercod yn Llandudno 15/5/14(e-bost)
9. Derbyniwyd Adroddiad y Clerc ar gyfarfod Parc Cenedlaethol Eryri yng Nghoed y Brenin 21/5/14. (e-bost). Bu'r Clerc hefyd yn cynrychioli Cyngor Tref Y Bala yn Noson Agored Glan-llyn. Yn ddiweddarach mynychodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan a'r Clerc Agoriad swyddogol Plas Glan-llyn gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones. Mae Glan-llyn yn un o brif gyflogwyr yr ardal, yn rhoi gwaith i tua 70 o bobl, ac mae'r sefydliad i'w chanmol am ymdrechu i wneud defnydd o wasanaethau a chynnyrch lleol.
10. Gwefan y Cyngor: cynhaliwyd cyfarfod gyda Hannah Gwenllïan a Chlerc Llandderfel / Llanycil ac mae'r wefan yn cael ei chreu ar hyn o bryd; cytunodd Alun Price i lunio paragraff o gyflwyniad i Dref Y Bala, a thynnu lluniau eiconig o'r dref i'w cynnwys ar dudalen flaen adran Cyngor Tref Y Bala.
11. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:
 - a. codwyd mater o denantiaid yn creu trafferthion mewn un ardal o'r dref, a thrafodwyd y camau y dylid eu cymryd i roi gwybod i'r landlordiaid. Mae proses glir yn bodoli ar gyfer ymateb, dim ond i'r landlord dderbyn tystiolaeth a chwynion.
 - b. Holwyd pam fod arwydd "Dim Cŵn" wedi ei osod ar Y Grîn; cafwyd esboniad na cheir mynd â chŵn i safle cyhoeddus nac yn agos i le chwarae.
 - c. Mynegwyd fod angen torri gwair ar hyd y ffordd osgoi.

12. Materion Cynllunio:

- a. Ystyriwyd Cais NP5/53/447B Garej Bodolwyn i ddiddymu rhai amodau yn y caniatâd gwreiddiol sy'n ymwed â chysylltu dŵr glaw i'r system garthffosiaeth - trafodwyd mewn cyfarfod arbennig ar 10/6/14: CYMERADWYO
- b. Ystyriwyd Cais NP5/53/L318A i osod ffenest dormer a balconi yn y tu blaen ac amnewid ffenest to yng nghefn 2 Heol Arenig. Cytunwyd i ofyn i'r Swyddog cadwraeth roi ei farn a ydyw'r cais yn cydymffurfio ag anghenion ardal gadwraethol.
- c. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i adeiladu estyniad i 4 Mawnog Fach
- d. Ystyriwyd Cais NP5/53/358C, sef newidiadau i fflatiau Cysgod y Coleg - trafodwyd mewn cyfarfod arbennig ar 10/6/14: CYMERADWYO

13. Materion Cyllid

- a) Derbyniwyd manylion am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Cadarnhawyd trosglwyddo £500 i gronfa'r Maer.
- b) Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.
- c) Cytunwyd i dalu am flodau'r tybiau.
- d) SLCC - cytunwyd i aros am anfoneb o Gyngor Lanuwchllyn parthed anfoneb hyfforddiant y Clerc.
- e) Ystyriwyd adroddiad y Cyfrifydd a chytunwyd i arwyddo ffurflen Hacker Young.

14. Gohebiaeth:

a) Llywodraeth Cymru: cwblhawyd arolwg Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

b) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd copïau o bamffled am y drefn newydd o ailgylchu

c) Un Llais Cymru: Derbyniwyd bwletin Rheoli Cyfoeth Naturiol Rhifyn Mai)

ch) Heddlu: - hysbyswyd y Cyngor fod yr Arolygydd mark Armstrong yn gadael yr ardal a chytunwyd i anfon gair o ddiolch ato. **Gweithredu: Clerc**

d) Eraill:

- i. Cytunwyd i roi cefnogaeth i "Mynyddoedd Pawb", sef ymgyrch i sicrhau parch at enwau lleoedd cynhenid.
- ii Derbyniwyd er gwybodaeth ohebiaeth oddi wrth Dr Tom Moore, Centre for Housing Research, Yr Alban, sydd yn ymchwilio i broblemau cartrefed.
- iii Derbyniwyd gwybodaeth am arddangosfa gelf yng Ngholeg Menai.
- iv Derbyniwyd llythyr o ddiolch i'r Maer am y cyfraniad tuag at Gloc Capel Saesneg

15. **Asedau'r Cyngor** – gohiriwyd adroddiad Eifion Roberts ar eu cyflwr

16. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan Alun Price a chyfeiriodd at yr agoriad swyddogol yn yr haf.

17. Mynegwyd balchder fod y Ganolfan Dwristiaeth ar hyn o bryd yn siop Manna yng nghanol y dref.